**Pwyllgor Safonau**

**15 Ebrill 2026**

Yn bresennol (yn bersonol):
Mr J Daniels, y Cynghorydd Dr S Hancock MBE, Mr J Hogg MBE a Mr R Lewis.

Yn bresennol (o bell):
Mr P Davies a Mr L Freeman.

Swyddogion yn bresennol:
Michael Kent (Swyddog Monitro), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Caroline Llewellyn (Cofnodion)

(Parc Llanion, Doc Penfro: 2.00pm – 2.45pm)

**1. Materion Personol**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Rhodri Lewis ac i Lyndon Freeman i'w cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor, a dweud hefyd bod Mr John Hogg, fu gynt yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor, wedi ymddiswyddo o'r rôl honno gan iddo ddod yn Aelod o’r Awdurdod Parc Cenedlaethol ac wedi’i benodi i'r Pwyllgor fel Aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd wedi disodli Dr R Plummer yr oedd ei chyfnod yn y swydd ar yr Awdurdod wedi dod i ben, a thalodd y Cadeirydd deyrnged i'w chyfraniad dros nifer o flynyddoedd.

**2. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M James.

**3. Ethol Dirprwy Gadeirydd**

Ar gynnig Mr Daniels, a eiliwyd gan y Cynghorydd Dr Hancock, etholwyd Mr R Lewis yn Ddirprwy Gadeirydd.

**4. Datgan Buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

**5. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2025 i’w cadarnhau a’u llofnodi.

Ar gynnig Mr Hogg, a eiliwyd gan Mr Lewis, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2025.

6. **Adroddiad y cyfarfod o Fforwm Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau Cymru a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2026**
Dywedodd y Cadeirydd bod hwn yn fforwm ardderchog ar gyfer addysgu a rhannu arfer da. O ran y gweithdrefnau Gwrandawiadau, cadarnhaodd y Swyddog Monitro bod yr Awdurdod wedi mabwysiadu ei weithdrefn ar gyfer delio â honiadau a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau fis Mehefin 2025 a bod y weithdrefn hon wedi'i dosbarthu i'r Pwyllgor.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai cyfarfod nesaf y Fforwm yn cael ei gynnal fis Mehefin, a'i fod yn gobeithio mynychu.

**Nodwyd.**

6. **Adroddiad Blynyddol y Swyddog Monitro 2025/26**
Croesawodd y Cadeirydd y Swyddog Monitro a gyflwynodd ei adroddiad blynyddol oedd yn cynnwys gwybodaeth am gylch gorchwyl y Pwyllgor, yr Hyfforddiant ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau a'r Aelodau yn fwy cyffredinol ar y Cod Ymddygiad, Cwynion, Tueddiadau, y Protocol ar Ddatrysiad Lleol, Goddefebau, y Polisi ar Gamau Gweithredu Annerbyniol gan Achwynwyr, Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon, a'r ymgynghoriad gan yr Ombwdsmon ar Weithredu'r Cod Ymddygiad.

Roedd yr adran o'r adroddiad ar y Tueddiadau yn tynnu sylw at y cynnydd pryderus yn y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial yn y cwynion a'r ceisiadau am wybodaeth a dderbynnir gan yr Awdurdod, allai fod yn bellgyrhaeddol a chymryd llawer o amser i'r swyddogion ddelio â'r materion hyn. Roedd yn cydnabod bod hyn yn gyffredin mewn sefydliadau eraill yn ogystal. Gofynnodd Aelod a oedd gan y swyddogion y capasiti i ymateb i'r ceisiadau niferus hyn, ac roedd y swyddogion yn cydnabod, fel Awdurdod bach, y gallai fod problemau weithiau o ran capasiti staff, oedd yn rhaid ei reoli.

Ar gynnig y Cynghorydd Dr Hancock, a eiliwyd gan Mr Hogg, **PENDERFYNWYD**;

i) nodi'r adroddiad;
ii) cytuno ar yr adroddiad fel sail i Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'w gyflwyno gerbron yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

7. **Gair o ddiolch**
Gan mai dyma allai fod yn gyfarfod olaf y Cadeirydd am fod ei gyfnod yn y swydd wedi dod i ben fis Hydref, diolchodd y Swyddog Monitro i Mr Daniels am ei waith ar y Pwyllgor Safonau.